CYNLLUNIO

Ar ôl graddio mewn Cynllunio, fel arfer byddwch yn gallu:

- Datrys problemau yn greadigol a chasglu, dadansoddi, gwerthuso a syntheseiddio data cynllunio.
- Defnyddio sgiliau dylunio ymarferol.
- Dylanwadu drwy drafod, hwyluso a rhwydweithio.
- Ymarfer sensitifrwydd trefniadol mewn amgylcheddau gweithio aml-broffesiynol.
- Cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.
- Defnyddio sgiliau TG, ystadegau, rhifedd a llythrennedd.
- Cymryd cyfrifoldeb yn frwdfrydig am eu dysgu eu hunain.
- Rheoli a chynhyrchu gwaith ar amser.
- Gweithio'n unigol ac mewn grwpiau.
- Ymarfer menter ac annibyniaeth o fewn ystod o werthoedd personol.
- Nodi a fformiwleiddio problemau cynllunio ac ysgrifennu nodau ac amcanion clir.
- Troi damcaniaeth a gwybodaeth yn bolisïau a chamau gweithredu cynllunio ymarferol, fformiwleiddio ac egluro strategaethau, cynlluniau a dyluniadau.
- Casglu, dadansoddi, gwerthuso a syntheseiddio data cynllunio.
- Cyflawni ymchwil mewn cynllunio.
- Monitro a gwerthuso ymyriadau a chanlyniadau cynllunio.
- Dangos ymwybyddiaeth o arferion a gwerthoedd gweithio proffesiynol.
- Fformiwleiddio a chynnig polisïau elfennol, strategaethau a chamau gweithredu.
- Diffinio a dadansoddi problemau a dadleuon cynllunio'n effeithiol ac yn briodol.
- Dangos dealltwriaeth o ddulliau trin ac esbonio cynnwys, gan wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd o'r cwricwlwm cynllunio.

Cipolwg ar Gynllunio

Mae Cynllunio'n cyfrannu at gyflawni a diogelu cynaladwyedd amgylcheddol, tegwch cymdeithasol, amrywiaeth diwylliannol a ffyniant economaidd, bob un ohonynt yn ddyheadau y mae cymdeithasau gwâr yn eu parchu. Mae'n creu cynigion creadigol ar gyfer newid drwy drafod ac eiriol o fewn gwe gymhleth o fuddiannau cystadleuol. Mae gweithredu cadarnhaol wrth galon cynllunio ac mae'n gweithredu o fewn cyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, cyfreithiol a rheolaeth. Mae'n gofyn am ddealltwriaeth o'r marchnadoedd tir, eiddo a datblygiadau, gan gynnwys agweddau economaidd, ariannol a chyfreithiol. Mae'n gofyn hefyd am ddealltwriaeth o ddylunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy.

Sources: